# FACE Wales

Spring 2009 www.face-cymru.org.uk

## Farming and sustainability

The Enabling Effective Support (EES) Forum in Powys held a successful ESDGC Rally for pupils and teachers at the Royal Welsh Showground in January. Entitled 'Actions speak Louder…' over 70 pupils from years 6 and 7 from 27 schools attended with teachers. Kirsty Williams AM gave the opening address and at the end of the day each school identified what steps they would take to be more eco-friendly in the years ahead. Caroline Davies, the then CAFE Project Coordinator, ran two workshops during the day tackling local food and seasonality. Follow up work is planned to link the schools with local farms.

## CAFE Project

The CAFE (Children, Agriculture, Food and Education) Project in Powys came to an end on 31 March 2009, having failed to secure further funding. However Caroline Davies, Project Coordinator, will continue working for Powys County Council as Schools Farm Visit Officer. The name CAFE will no longer be used. Caroline can be contacted on caroline.davies@powys.gov.uk or tel. 01938 810302.

## For ever, for everyone

An innovative programme is being developed by the National Trust to encourage more young people to appreciate the environment and to live sustainably in Eryri. Young people between the ages of 12 and 24 from all over the country have participated in the inspiring programme of activities that links life, culture, history and language with the land and the ways of modern living. This initiative offers something to suit everybody! Groups have experienced sleeping in the famous Mongolian Yurts, made their own bread in the earth oven, learned bush craft and friction fire lighting techniques, woven sheep's fleeces into beautiful rugs and learned more about the tales and legends of Snowdonia. All this whilst experiencing the wide range of adventurous outdoor pursuits available in Eryri. For more information call 01766 510125.



## Farm visits help win an Eco Schools award

When Pembroke Dock Community School was presented with its fourth International Eco Schools Green Flag in January, the children were delighted that TV presenter Iolo Williams attended the award ceremony. It was the first Platinum award for Pembrokeshire, and farm visits played a crucial role. Teacher Amanda Edwards said the pupils regard Little Pencoed Farm as an extension of their school grounds, and that farmer Bruce Carlisle and Education Leader Jill Simpson of Learning on the Farm and FACE play an essential role in helping pupils appreciate the importance of biodiversity. At the presentation, Iolo Williams expressed strong support for school visits to farms.





## Hatching eggs

Schools in Glamorgan have been taking part in a project to hatch their own eggs, as part of a project funded by NFU Cymru. Charlotte Edwards from Food for Thought, a group of farmers who work with local schools, supplies the eggs from her own chickens on her home farm. She said, "It's a fantastic experience for everyone. It is the only project in school that has the whole school team excited, from pupils to caretaking staff. The pupils keep diaries, draw pictures and learn a lot about animals and farming during the project. Schools hire incubators for 21 days, and they can be connected to a computer."

## Let's Grow

Two events were organised in March to help teachers get gardening, one at Greenmeadow Community Farm in Cwmbrân and the other at Centre for Alternative Land Use at Henfaes near Bangor. Sponsored by Morrisons as part of their Let's Grow project, the events brought together gardening experts and community groups who are able to give teachers a hand with their projects. There was lots of enthusiasm for growing food in schools and we hope to organize more events like this.

## Contacts

Wales Education Coordinator:
Jane Powell, Organic Centre Wales, Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences, Aberystwyth University, SY23 3AL
www.face-cymru.org.uk
01970 622248
jane@face-online.org.uk

Ceredigion, Carmarthenshire, Pembrokeshire, Swansea: Nick Rebbeck, Learning on the Farm, www.learningonthefarm.org.uk
01570 470470

Powys: Caroline Davies, School Farm Visits Officer, Powys County Council 01938 810302.

Charity number 1108241

Designed and Printed by De Montfort Print (0116) 251 1223

# FACE Cymru

Gwanwyn 2009 www.face-cymru.org.uk

## Ffermydd a chynaliadwyedd

Cynhaliodd y Fforwm Galluogi Cefnogaeth Effeithiol ym Mhowys Rali ESDGC lwyddiannus ar gyfer disgyblion ac athrawon ar faes y Sioe Frenhinol ym mis Ionawr. Gyda'r teitl "Actions speak Louder…" daeth dros 70 o ddisgyblion o flynyddoedd 6 a 7 o 27 ysgol yno gyda'u hathrawon. Cafwyd cyflwyniad agoriadol gan Kirsty Willams AC, ac ar ddiwedd y dydd penderfynnodd pob ysgol pa gamau fuasant yn eu cymryd er mwyn bod yn fwy eco-gyfeillgar yn y dyfodol. Cynhaliodd Caroline Davies, Cyn-gydlynydd Prosiect CAFE, ddau weithdy yn ystod y dydd yn ymdrin â bwyd lleol a natur dymhorol. Mae mwy o waith yn cael ei gynllunio er mwyn cysylltu'r ysgolion gyda ffermydd lleol.

## Prosiect PABA

Daeth y prosiect PABA (Plant, Amaeth, Bwyd ac Addysg) ym Mhowys i ben ar 31 Mawrth 2009 ar ôl methu sicrhau cyllid pellach. Fodd bynnag, fe fydd Caroline Davies, Cydlynydd y Prosiect yn parhau i weithio i Gyngor Sir Powys fel Swyddog Ymweliadau Fferm ar gyfer Ysgolion. Ni ddefnyddir yr enw PABA mwyach. Gellir cysylltu â Caroline ar caroline.davies@powys.gov.uk neu ffonio 01938 810302.

## Am byth, i bawb

Mae rhaglen ddyfeisgar yn cael ei datblygu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn annog mwy o bobl ifanc i werthfawrogi'r amgylchedd ac i fyw'n gynaliadwy yn Eryri. Mae pobl ifanc rhwng 12 a 24 o bob rhan o'r wlad wedi cymryd rhan yn y rhaglen ysbrydoledig o weithgareddau sy'n cysylltu bywyd, diwylliant, hanes ac iaith gyda'r tir a ffyrdd modern o fyw. Mae'r fenter hon yn cynnig rhywbeth i siwtio pawb! Mae grwpiau wedi profi cysgu yn yr Iwrtiau Mongolaidd enwog, gwneud eu bara eu hunain yn y popty pridd, dysgu crefft y gwylltir a thechnegau cynnau tanau gyda ffrithiant, gwehyddu cnuoedd defaid i rygiau hardd, a dysgu mwy am straeon a chwedlau Eryri. Hyn i gyd tra'n profi'r ystod eang o weithgareddau awyr-agored anturus sydd ar gael yn Eryri. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01766 510125.



## Ymweliadau â ffermydd yn helpu i ennill gwobr Eco-Ysgolion

Pan gyflwynwyd Ysgol Gymunedol Doc Penfro gyda'i bedwaredd Faner Werdd Eco-Ysgolion Rhyngwladol ym mis Ionawr, roedd y plant wrth eu bodd bod y cyflwynydd teledu Iolo Williams wedi mynychu'r seremoni wobrwyo. Hon oedd y wobr Platinwm gyntaf i Sir Benfro, ac fe chwaraeodd ymweliadau fferm ran allweddol. Dywedodd yr athrawes Amanda Edwards bod y disgyblion yn ystyried Fferm Pencoed Bach fel estyniad o dir eu hysgol a bod y ffermwr Bruce Carlisle a'r Arweinydd Addysg Jill Simpson o Dysgu ar y Fferm a FACE yn chwarae rhan hanfodol mewn helpu disgyblion i werthfawrogi pwysigrwydd bioamrywiaeth. Yn y cyflwyniad, datganodd Iolo Williams gefnogaeth gref i ymweliadau ysgolion i ffermydd.






## Deor wyau

Mae Ysgolion yn Sir Forgannwg wedi cymryd rhan mewn prosiect i ddeor eu wyau eu hunain, fel rhan o brosiect sydd wedi'i gyllido gan NFU Cymru. Mae Charlotte Edwards o Food for Thought, grŵp o ffermwyr sy'n gweithio gydag ysgolion lleol, yn cyflenwi'r wyau o'i ieir ei hun ar y fferm lle mae hi'n byw. Dywedodd, "Mae'n brofiad gwych i bawb. Hwn yw'r unig brosiect yn yr ysgol sy'n cyffroi holl dîm yr ysgol, o'r plant i'r staff gofalu. Mae'r disgyblion yn cadw dyddiadur, gwneud lluniau a dysgu llawer am anifeiliaid a ffermio yn ystod y prosiect. Mae'r ysgolion yn hurio deoryddion am 21 diwrnod, a gellir eu cysylltu â chyfrifiadur."

## Gadewch i ni dyfu

Trefnwyd dau ddigwyddiad ym mis Mawrth i helpu athrawon i ddechrau garddio, un yn Fferm Gymunedol Greenmeadow yng Nghwmbrân a'r llall yng Nghanolfan Defnydd Tir Amgen yn Henfaes, ger Bangor. Roedd y digwyddiadau, a noddwyd gan Morrisons yn rhan o'i prosiect Let's Grow, wedi dod ag arbenigwyr garddio a grwpiau cymunedol at ei gilydd, a oedd yn gallu rhoi cymorth i athrawon gyda'u prosiectau. Roedd yna lawer o frwdfrydedd dros dyfu bwyd yn yr ysgolion ac rydym yn gobeithio trefnu mwy o ddigwyddiadau fel hyn.

## Cysylltiadau

Cydlynydd Addysg Cymru
Jane Powell, Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3AU.
01970 622248
jane@face-online.org.uk

Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe:
Nick Rebbeck, Dysgu ar y Fferm,
www.learningonthefarm.org.uk
01570 470470

Powys: Caroline Davies, Swyddog Ymweliadau Fferm Ysgolion, Cyngor Sir Powys, 01938 810302

Rhif elusen 1108241

Designed and Printed by De Montfort Print (0116) 251 1223